Y MYNYDD

Un cynnig arall, un tro'r rhod
Un cam agosach, at ble dw'i 'isie bod
Un cam pwrpasol, un gwthiad cryf
A bydda'i yno, yn un o'r rhif
Yr ochor draw i'r mynydd.

Hen elynion, ar bob llaw
Hen fwganod, ddaw i godi braw
Lleisie'n galw, am droi 'nol
Magle'n baglu, tynnu 'nol
Wrth ddringo ar y mynydd.

Dwy'n dal i gredi
Mae gen i ffydd
Dwy'n dal i dderbyn
Beth a fydd a fydd
Ma' unrhyw beth yn bosib.

Ysgwyddau llydan, y rhai a fu
Ysgwyddau llydan, i'n cario ni
Ôl traed eraill, ar y llwybrau sy'
Olion disglair, at y copa fri
I'n harwain ar y mynydd.

Breuddwyd arall, ddaw i mi
Breuddwyd newydd, ddaw i ni.

© Geraint Griffiths 2006